**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad: CA(3)-26-10: 10 Tachwedd 2010**

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400004_27_05_2010&t=0

**Amser: 09.30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
William Graham, Dwyrain De Cymru
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd

**Ymddiheuriadau.**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Janet Ryder AC, Cadeirydd y Pwyllgor. Dirprwyodd Dr Dai Lloyd ar ei rhan, ac fe'i etholwyd yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod, o dan Reol Sefydlog 10.19. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Kirsty Williams AC - nid oedd dirprwy.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 na 15.3.**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**CA495 - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010**
Gweithdrefn: Negyddol
Fe'u gwnaed: 20 Hydref 2010
Fe'u gosodwyd: 22 Hydref 2010
Yn dod i rym: 1 Ebrill 2011

**CA496 - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010**
Gweithdrefn: Negyddol
Fe'u gwnaed: 20 Hydref 2010
Fe'u gosodwyd: 22 Hydref 2010
Yn dod i rym: 1 Ebrill 2011

**Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**CA494 – Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010**
**Gweithdrefn:** Cadarnhaol
**Fe'i gwnaed:** ni nodwyd y dyddiad
**Fe'i gosodwyd:** ni nodwyd y dyddiad
**Yn dod i rym:** yn unol ag erthygl 1

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law gan Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant Cymru ynglŷn â'r Gorchymyn hwn. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd y pryderon a fynegwyd yn achos i gyflwyno adroddiad ar rinweddau'r Gorchymyn, o dan Reol Sefydlog 15.3.

**Busnes arall**

**Ystyried y Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried pa mor addas yw'r darpariaethau hynny yn y Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Y swyddogion a ddaeth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog oedd Bethan Bateman, Prif Ddadansoddwr Polisi, Trafnidiaeth; a Lynsey Edwards, Cyfreithiwr.

**Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad – Pwyllgorau: Ymateb y Llywydd i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 12 Hydref**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Llywydd i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 12 Hydref, ynghylch adolygiad y Pwyllgor Busnes o Reolau Sefydlog y Cynulliad.

**Penderfyniad i gwrdd yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth am y Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**10 Tachwedd 2010**